

Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Tŷ Russell (Byr) 22-11-15

Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Tŷ Russell (Byr) 22-11-15

Cynnwys

Cynnwys	2
Cynllun Argyfwng Tân	3
Cyflwyniad	3
Camau i'w cymryd yn ystod Argyfwng Tân	4
Camau i'w cymryd gan unrhyw un sy'n darganfod tân	4
Rhybudd Larwm Tân	4
Cadarnhau'r Tân	4
Cysylltu â'r Gwasanaethau Brys	4
Gwagio Adeilad yn ystod Tân (bob aelod o staff)	4
Camau i'w cymryd yn ystod Argyfwng Tân - Trefniadau	5
Tîm Diogelwch Tân yr Adeilad	5
Rôl yr 'Unigolyn Cyfrifol'	5
Yr Unigolyn Cyfrifol - Camau i'w cymryd mewn argyfwng	6
Rheolwyr Llawr -	6
Wardeniaid Tân -	7
Pob aelod o Staff	7
Swyddogion Cymorth Cyntaf	8
Cynlluniau Wrth Gefn	8
Trefniadau Gwagio Eilaidd	8
Digwyddiad Mawr	8
Methiant Pŵer	8
Trefniadau Tân Cyffredinol	9
System Darganfod Tân a Larymau Tân	9
System Goleuadau Argyfwng	9
Trefniadau ar gyfer rheoli tân:	9
Dulliau a Llwybrau Gwagio	9
Cynlluniau Personol Gadael Mewn Argyfwng (PEEP)	10
Man Ymgynnull mewn Argyfwng:	10
Trefniadau ar gyfer ymladd tân:	10
Ystafell TGCh/Cyfathrebu Tŷ Russell (Ystafell Gweinydd Llawr Isaf)	11
Camau i'w gweithredu ar unwaith:	11
GWEITHREDU GAN Y RHEOLWR TGCh	11
CYNNAL A CHADW'R YSTAFELL GYFATHREBU	12
Cynlluniau'r cyfleuster:	12
Pwyntiau Ynysu Nwy, Trydan, Dŵr	12
Manylion Cyswllt y Cynllun Parhad mewn Argyfwng	12
RHIFAU / MANYLION CYSWLLT MEWN ARGYFWNG	12
Y GWASANAETHAU BRYs-'999'	12
CWMNIAU CYFLEUSTODAU / ALLANOL	13
RHIFAU ARGYFWNG CSDd	13

Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Tŷ Russell (Byr) 22-11-15

Cynllun Argyfwng Tân

Enw'r Cyfleuster:	Russell House – Y Rhyl U.P.R.N = 0913-000
Cyfeiriad:	Ffordd Churton, Y Rhyl LL18 3DP
Rhif ffôn:	Rhif Cyffredinol CSDd: 01824-706000 Rhif ffôn y tu allan i oriau CSDd: 0300-123-0368
Unigolyn cyfrifol:	John Dickson, Rheolwr Cyfleusterau CSDd: 07810 758978
Deiliaid Allweddi	Paul Ollerhead, Uwch Beiriannydd Tân: 07795 335288
	Simon Davies, Goruchwyliwr Safle: 07810 815404
Paratowyd y cynllun gan:	John Dickson 15/11/2022 (Dyddiad adolygu 01/11/2023)
Nifer y bobl sydd yn yr adeilad fel arfer:	Hyd at 400 o bobl Staff Parhaol, Ymwelwyr, Gweithwyr Hyblyg / Rhannu Desgiau.
Oriau gweithredu:	Mae'r adeilad hwn yn agored i staff rhwng 07:00-19:00awr Dydd Llun - dydd Iau a 07.00-18.30 ar ddydd Gwener

Cyflwyniad

Dyma gynllun argyfwng tân Swyddfeydd Tŷ Russell, Y Rhyl. Gellir defnyddio'r cynllun ar gyfer unrhyw ddigwyddiad brys lle mae angen gwagio'r adeilad, megis tân, ffrwydrad, nwy yn gollwng, difrod i'r adeilad, ac ati.

Gall yr **Unigolyn Cyfrifol** fod yn unrhyw aelod hyfforddedig o Dîm Diogelwch Tân yr Adeilad sydd ar y safle yn ystod yr argyfwng (Rheolwr Cyfleusterau, Gofalwr, Rheolwr Llawr, Warden Tân, ac ati.)

Bydd y cynllun argyfwng yn cael ei roi ar waith ar unwaith pan fydd y larwm tân yn canu, yn dilyn rhybuddion ar lafar am dân (er enghraifft, drwy weiddi 'tân') neu unrhyw gyfarwyddiadau eraill gan yr **Unigolyn Cyfrifol**.

Mae strategaeth wagio'r cyfleuster yn ei gwneud yn ofynnol i bawb adael yr adeilad ar unwaith.

Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Tŷ Russell (Byr) 22-11-15

Bydd aelodau o staff (gan gynnwys gweithwyr newydd, dros dro, hyblyg/rhannu desgiau) yn gyfarwydd â'r cynllun ac wedi derbyn gwybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant priodol.

Camau i'w cymryd yn ystod Argyfwng Tân

Camau i'w cymryd gan unrhyw un sy'n darganfod tân

Dylai unrhyw un sy'n darganfod tân ganu'r larwm drwy ddefnyddio un o'r pwyntiau galw tân a rhybuddio cydweithwyr ar lafar e.e. drwy weiddi "Tân", "pawb allan", ac ati.

Rhybudd Larwm Tân

Mae system synhwyro a larwm tân awtomatig yn y cyfleuster hwn. Os bydd unrhyw un o'r synwryddion electronig yn synhwyro gwres neu fwg (neu os bydd pwynt galw'n cael ei ddefnyddio), bydd y system larwm yn cael ei actifadu i roi rhybudd clywedol a gweledol.

Mae'r larwm tân yn y cyfleuster hwn yn creu sŵn uchel, dwy dôn a gaiff ei ailadrodd.

Os bydd y larwm tân yn canu, **DIM OND** yr **Unigolyn Cyfrifol** neu'r Gwasanaeth Tân fydd yn gallu ailosod y system larwm.

Cadarnhau'r Tân

Os bydd y gan ddeiliaid Allweddi neu unigolion cyfrifol eraill ar y safle.

Cysylltu â'r Gwasanaethau Brys

Os nodir arwyddion o dân (fflamau, mwg, arogl llosgi, gwres uchel) bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn ffonio 999 i ofyn am gymorth y Gwasanaeth Tân.

Gwagio Adeilad yn ystod Tân (bob aelod o staff)

Os bydd y larwm tân yn canu, fe ddylai bob aelod o staff, ymwelwyr a chontractwyr adael yr adeilad drwy ddefnyddio'r allanfa dân agosaf, ymgynnull yn y maes parcio yng nghefn yr adeilad ac aros am gyfarwyddiadau pellach.

Bydd aelodau staff dynodedig yn helpu unigolion ag anableddau a/neu broblemau symudedd i adael yr adeilad. Caiff y manylion hyn eu cofnodi mewn cynlluniau personol gadael mewn argyfwng.

Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Tŷ Russell (Byr) 22-11-15

Dylai pawb aros yn y man ymgynnull i gael cyfarwyddiadau gan yr Unigolyn Cyfrifol. Ni ddylai neb fynd yn ôl i mewn i'r adeilad nes byddant yn cael gwybod ei bod yn ddiogel iddynt wneud hynny.

Bydd staff, ymwelwyr a chontractwyr yn ymwybodol o weithdrefnau gadael yr adeilad, y dulliau ymadael a'r allanfeydd tân.

Camau i'w cymryd yn ystod Argyfwng Tân - Trefniadau

Tîm Diogelwch Tân yr Adeilad

Bydd Tîm Diogelwch Tân yr Adeilad yn cynnwys:

- Y Tîm Rheoli Cyfleusterau (Rheolwyr RhC, Gofalwyr)
- Rheolwr Llawr (Lefelau: llawr isaf, llawr, Lloriau 1, 2 a 3)
- Wardeniaid Tân
- Swyddogion Cymorth Cyntaf
- Bydd bob aelod o Dîm Diogelwch Tân yr Adeilad yn gwisgo siacedi/gwasgodau llachar (oren ar gyfer Rheolwyr Llawr, Melyn ar gyfer Wardeniaid Tân/swyddogion cymorth cyntaf).

Rôl yr 'Unigolyn Cyfrifol'

Y Tîm Cyfleusterau yw'r prif ymatebwyr y byddai disgwyl iddynt reoli achosion tân a'r broses o wagio'r adeilad.

Ar adegau, mae gofyn i'r tîm Cyfleusterau weithio mewn adeiladu/lleoliadau eraill, mae'n bosibl felly na fydd y Staff Cyfleusterau ar y safle mewn achos o larwm tân yn canu.

Mae'r **Unigolyn Cyfrifol** felly yn rôl ac nid person a enwir a bydd yn amrywio yn ôl argaeledd, gweithgareddau gwaith ac amser o'r dydd ond yn gyffredinol bydd yn:-

- Aelod o'r Tîm Rheoli Cyfleusterau neu'n
- Un o'r Rheolwyr Llawr (Tîm Diogelwch Tân yr Adeilad)

Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Tŷ Russell (Byr) 22-11-15

Yr Unigolyn Cyfrifol - Camau i'w cymryd mewn argyfwng

Mewn achos o larwm tân, bydd yr **Unigolyn Cyfrifol** yn gwirio'r panel larwm tân i nodi lleoliad y tân. Bydd diagram o'r parthau wrth ymyl y panel larwm tân yn dangos y parth tân ar gynllun yr adeilad.

Caiff y system larwm tân ei monitro (24/7) gan y ganolfan derbyn larymau a fydd yn ffonio'r **Deiliaid Allwedi** i'w rhybuddio bod y larwm tân yn canu.

Bydd yr **Unigolyn Cyfrifol** (neu'r dirprwy dynodedig) yn ymchwilio i leoliad y tân i gadarnhau p'un a oes tân yn yr adeilad neu ddim.

Os nodir arwyddion o dân (fflamau, mwg, arogl llosgi, gwres uchel) **bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn ffonio 999** i ofyn am gymorth y Gwasanaeth Tân ac yn rhannu unrhyw fanylion hysbys am y tân.

Bydd yr **Unigolyn Cyfrifol** yn aros wrth y panel larwm tân (lle bo hynny'n ddiogel) ac yn cydlynu camau gweithredu gyda gweddill y Tîm Diogelwch Tân drwy feicroffon radio llaw. Mae'n bosibl byddant yn dynodi dyletswyddau i'r Rheolwyr Llawr/Wardeniaid Tân sydd ar gael yn unol â natur yr argyfwng.

Bydd yr **Unigolyn Cyfrifol** yn cysylltu gyda'r Swyddogion Tân pan fyddant yn cyrraedd yr adeilad ac yn darparu manylion am y tân, y statws gwagio ac unrhyw beryglon ar y safle y dylent fod yn ymwybodol ohonynt.

Byddant yn sicrhau bod y ffolder tân / bag brys ar gael i'r Uwch Swyddog Tân.

Bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn cyfathrebu gyda Rheolwyr Llawr (drwy'r radio) yn y man ymgynnull i roi gwybod p'un a yw'n ddiogel i fynd yn ôl i mewn i'r adeilad neu a fydd angen cymryd camau pellach.

Rheolwyr Llawr -

Mewn achos o larwm tân yn canu, bydd un neu fwy o'r Rheolwyr Llawr enwebedig yn gwirio'r Panel Tân i gysylltu gyda'r **Unigolyn Cyfrifol** ac yn casglu radio o'r dderbynfa. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddynt helpu'r **Unigolyn Cyfrifol**. Os nad oes angen cymorth ar yr Unigolyn Cyfrifol, bydd y Rheolwyr Llawr yn mynd i'r Man Ymgynnull i gyfarwyddo a chydlynu gweithgareddau staff.

Os na fydd y Tîm Rheoli Cyfleusterau ar y safle, bydd y Rheolwyr Llawr yn ymgymryd â rôl a dyletswyddau'r **Unigolyn Cyfrifol** am y tro;

Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Tŷ Russell (Byr) 22-11-15

Yn y man ymgynnull, bydd Rheolwyr y Llawr yn sicrhau fod pawb yn aros yn ddiogel yn y man ymgynnull, cymryd cofrestr ac yn casglu gwybodaeth gan y Wardeniaid Tân gan nodi unrhyw unigolion sydd ar goll neu heb eu cyfrif.

Byddant yn rhannu unrhyw wybodaeth berthnasol gyda'r **Unigolyn Cyfrifol** ac yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda phawb yn y man ymgynnull.

Wardeniaid Tân -

Unwaith y bydd y larwm tân yn canu, bydd Wardeniaid Tân yn annog cydweithwyr i adael yr adeilad yn drefnus a chyn gynted â phosibl.

Byddant yn gwirio'r ardaloedd dynodedig i sicrhau bod pawb wedi gadael yr adeilad ac yn casglu'r byrddau arwyddo i mewn/allan.

Cau'r ffenestri a'r drysau lle bynnag y bo modd yn eu hardal ddynodedig.

Gadael yr adeilad a rhoi gwybod i'r rheolwr llawr perthnasol am statws y llawr/ardal ddynodedig.

Helpu'r Rheolwyr Llawr gydag unrhyw weithgareddau pellach.

Sylwer: Mae'n rhaid i holl wardeniaid tân sy'n bresennol adeg gadael roi gwybod

Unigolyn Cyfrifol i drosglwyddo unrhyw wybodaeth berthnasol

Pob aelod o Staff

Sicrhau bod unrhyw waith sydd ar y gweill yn ddiogel.

Sicrhau bod ffenestri a drysau tân wedi cau.

Dilyn cyfarwyddiadau mewn perthynas â gwagio'r adeilad drwy'r allanfa ddiogel agosaf.

Cyfarfod yn y man ymgynnull a nodwyd yn y maes parcio cefn ac aros am gyfarwyddiadau pellach.

Rhoi gwybod am unrhyw unigolion heb eu cyfrif ar unwaith i Reolwr Llawr neu Warden Tân.

Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Tŷ Russell (Byr) 22-11-15

Swyddogion Cymorth Cyntaf

Gofynnir i Swyddogion Cymorth Cyntaf Hyfforddedig gario cyflenwadau/pecynnau cymorth cyntaf gyda nhw pan fyddant yn gwagio'r adeilad a bod yn barod i ddarparu cymorth cyntaf lle bo angen yn y man ymgynnull.

Dylid rhoi gwybod i'r Rheolwr Llawr/Warden Tân am unrhyw anafiadau a gafwyd yn ystod y broses o wagio'r adeilad yn y man ymgynnull.

Bydd anafusion yn cael eu monitro a dylid galw am Barafeddygon drwy ffonio 999 lle bo angen.

Cynlluniau Wrth Gefn

Trefniadau Gwagio Eilaidd

Fel mesur dros dro, bydd disgwyl i unigolion sy'n gadael yr adeilad aros yn y man ymgynnull nes byddant wedi derbyn cyfarwyddiadau pellach.

Os yw'r system larwm yn canu ac nad oes achos gwirioneddol o dân, mae'n debygol y caniateir i aelodau staff ddychwelyd i'r adeilad unwaith y bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn fodlon ei bod yn ddiogel i wneud hynny.

Os nad yw'r digwyddiad larwm tân yn debyg o gael ei ddatrys yn sydyn neu bod y tywydd yn arw, bydd aelodau o staff yn cael eu cynghori am unrhyw gamau pellach angenrheidiol neu adleoliad sydd ar gael.

Digwyddiad Mawr

Os bydd y Gwasanaeth Tân yn datgan digwyddiad mawr, bydd yr **Unigolyn Cyfrifol** yn cysylltu â'r Landlord Corfforaethol/Uwch Dîm Arweinyddiaeth i ddechrau Cynllun Parhad Busnes y Sir.

Ar y pwynt hwn, bydd yr **Unigolyn Cyfrifol** yn cau'r adeilad ac yn anfon staff gartref neu i weithio mewn lleoliad arall.

Methiant Pŵer

Mae rhai o'r goleuadau argyfwng wedi'u goleuo'n barhaol. Mewn achos o fethiant pŵer, dylid troi'r holl oleuadau brys ymlaen. Bydd y rhain yn darparu goleuadau lefel isel i helpu'r broses o wagio'r adeilad.

Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Tŷ Russell (Byr) 22-11-15

Ni fydd y lifft yn weithredol. Os bydd rhywun yn defnyddio'r lifft yn ystod methiant pŵer, bydd y lifft yn gostwng i lefel 1 ac yn agor y drysau cyn diffodd.

Unigolion yn sownd mewn lifft.

Trefniadau Tân Cyffredinol

System Darganfod Tân a Larymau Tân

Caiff y system darganfod tân, a larymau tân eu gwirio'n ddyddiol a'u profi'n wythnosol (**dydd Iau, 10:00am**), a bydd canlyniadau'r system larwm tân yn cael eu cofnodi yn y llyfr cofnodion. Dylid rhoi gwybod i'r Ddesg Gymorth Gwasanaethau Adeiladau ar unwaith er mwyn i ddarparwr y Gwasanaeth larymau fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

System Goleuadau Argyfwng

Caiff y system goleuadau argyfwng (unedau goleuo a gynhelir, bocsys goleuni ag arwyddion, goleuadau sy'n cynnwys mewn argyfwng) ei phrofi'n fisol a chaiff y canlyniadau eu cofnodi yn llyfr cofnodion y system larwm tân. Dylid rhoi gwybod i'r Ddesg Gymorth Gwasanaethau Adeiladau ar unwaith er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

Trefniadau ar gyfer rheoli tân:

Lluniwyd ac adeiladwyd yr adeilad i oedi tân a mwg rhag lledaenu gyda drysau atal tân a waliau rhannu i wahanu adrannau tân.

Mae'n rhaid cadw drysau tân ar gau i atal tân a mwg rhag lledaenu.

Dulliau a Llwybrau Gwagio

Mae digon o allanfeydd tân i ddarparu llwybrau dianc o bob ardal o'r adeilad.

Mae'r allanfeydd tân wedi'u lleoli er mwyn galluogi pobl i adael yr adeilad mewn mwy nag un cyfeiriad o bob ardal. (Mae'r allanfa ar gyfer ystafelloedd yn yr adain ogleddol ar y llawr uchaf (Civica) wedi'i gyfyngu i un cyfeiriad, mae darpariaeth ychwanegol wedi'i ddarparu yn yr ardal hon i gyfyngu/gynnal lledaeniad tân).

Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Tŷ Russell (Byr) 22-11-15

Mae bob coridor yn darparu llwybrau dianc diogel.

Mae drysau allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir gydag arwyddion sy'n dangos pa ffordd i ddianc, wedi'u goleuo'n briodol ac â dyfeisiau agor un cam addas.

Ni ellir defnyddio'r lifft os bydd y larwm tân yn canu.

Os bydd y larwm tân yn canu, dylai bob ymwelydd a chontractwr adael yr adeilad ar unwaith gan ddefnyddio'r allanfa dân ddiogel agosaf a mynd i'r man ymgynnull yng nghefn yr adeilad.

Er mwyn paratoi ar gyfer argyfwng, bydd ymarferion gwagio adeilad rheolaidd yn cael eu cynnal. Bydd cofnodion o'r ymarferion yn cael eu cadw.

Caiff cyflwr a gweithrediad llwybrau mynediad ac allanfeydd tân eu gwirio a'u cynnal a chadw'n wythnosol. Dylid cofnodi'r gwiriadau ac unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd lle bo angen.

Cynlluniau Personol Gadael Mewn Argyfwng (PEEP)

Mae gan bawb y nodwyd bod angen cymorth arnynt Gynllun Personol Gadael Mewn Argyfwng sy'n amlinellu eu hanghenion cymorth a'u gallu unigol.

Mae'r PEEP yn nodi'r dull ymadael gorau (cerdded â chymorth, cadair olwyn, cadair achub ac ati) ac wedi'i leoli yn ffolder tân y safle er gwybodaeth.

Mae cadeiriau achub ar gael ac wedi'u lleoli ar bob un o'r grisiau diogel.

Man Ymgynnull mewn Argyfwng:

Y man ymgynnull mewn argyfwng ar gyfer pawb sy'n gadael yr adeilad yw'r maes parcio yng nghefn yr adeilad.

Pan fydd hynny'n bosibl, gelwir enwau ar y gofrestr yn y man ymgynnull a bydd unrhyw wybodaeth berthnasol a gesglir gan y rheolwr llawr a/neu'r wardeniaid tân yn cael ei throsglwyddo i'r unigolyn cyfrifol.

Trefniadau ar gyfer ymladd tân:

Darperir ystod o ddiffoddyddion tân (dŵr, ewyn, powdr, carbon deuocsid) fel rhan o'r offer ymladd tân.

Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Tŷ Russell (Byr) 22-11-15

Mae diffoddyddion tân wedi'u lleoli ar draws y safle ac mae eu lleoliadau wedi'u nodi ar y cynllun safle.

Bydd Wardeniaid Tân wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth a chyrsgiau hyfforddiant ymarferol i wybod sut i ddefnyddio'r diffoddyddion tân.

Gall unrhyw unigolyn sy'n darganfod tân ac wedi derbyn hyfforddiant priodol geisio ymladd y tân gan ddefnyddio diffoddydd tân priodol lle bo hynny'n ddiogel.

Ystafell TGCh/Cyfathrebu Tŷ Russell (Ystafell Gweinydd Llawr Isaf)

Mae Ystafell Gweinydd TGCh Llawr Isaf wedi'i diogelu gan systemau ataliad Nwy FM200 Awtomatig ar wahân. Mae paneli rheoli damper mwg wedi'u lleoli y tu allan i bob ystafell.

Dim ond Aelodau'r Tîm RhC neu TGCh fydd yn gweithredu'r damperi mwg. Gweler y weithdrefn ar wahân.

Mae switshys dynion tân ar y prif banel larwm tân. Manylion am eu pwrpas a sut i'w gweithredu.

Camau i'w gweithredu ar unwaith:

1. Os bydd yna dân a/neu ganfod mŵg/ffynhonnell wres, bydd y system ataliad tân awtomatig yn gweithredu. Bydd hyn yn ei dro yn gweithredu'r seinwyr tân (synau uchel) a'r goleuadau rhybudd tân (Golau Coch)
2. Ar ôl gweithredu'r system ataliad tân, dylech wacau'r ystafell gyfathrebu gynted â phosibl, gan sicrhau eich bod allan o'r ystafell gyfathrebu o fewn dau funud.
3. Ar ôl gadael, gwnewch yn siŵr nad yw'r ystafell gyfathrebu wedi'i chau, bydd hyn yn galluogi'r gwasanaethau tân i gael mynediad unwaith y bydd y system ataliad tân wedi'i ddadwefru'n llwyr.
4. Rhowch wybod i'ch rheolwr atebol yn eich man ymgynnull tân, gan roi gwybod iddo/iddo bod yr ystafell gyfathrebu yn glir a'r holl staff wedi eu cyfrif a bod y system ataliad tân wedi'i ryddhau.

GWEITHREDU GAN Y RHEOLWR TGCh

1. Gwnewch yn siŵr fod unrhyw staff sy'n gweithio yn yr ystafell gyfathrebu wedi eu cyfrif.
2. Rhowch wybod i reolwr yr adeilad (Unigolyn Cyfrifol) bod y system ataliad tân wedi'i ryddhau a bod yr ystafell gyfathrebu wedi'i chlirio a'r holl staff wedi eu cyfrif.

Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Tŷ Russell (Byr) 22-11-15

CYNNAL A CHADW'R YSTAFELL GYFATHREBU

1. Mae'r staff TGCh i gadw'r ystafell gyfathrebu yn lân ac yn daclus bob amser.
2. Ni ddylid yfed na bwyta yn yr ystafell gyfathrebu
3. Dylid rhoi unrhyw sbwriel/bocsys gwag neu ddefnyddiau hylosg nad sydd ei angen i'r staff cyfleusterau eu gwaredu.

Cynlluniau'r cyfleuster:

Mae cynlluniau'r safle wedi'u lleoli yn y ffolder tân ar y safle a 'bag brys' sydd wedi'i leoli mewn locer ger y prif banel larwm tân.

Mae'r cynlluniau'n nodi cynllun y cyfleuster, llwybrau dianc, allanfeydd tân, grisiau, a dulliau ymladd tân ac ati.

Pwyntiau Ynysu Nwy, Trydan, Dŵr

Nwy:Lleolir mewn blwch/cabinet dan glo yn wynebu mannau parcio i'r anabl.

Angen allwedd MJ56 safonol ar gyfer clo.

Trydan:Lleolir yn ystafell boeler ar y llawr isaf. Allweddi yn cael eu cadw yn

swyddfa'r Goruchwyliwr Safle.

Dŵr: Lleolir yn ystafell boeler ar y llawr isaf, ar y wal ar yr ochr dde.

Manylion Cyswllt y Cynllun Parhad mewn Argyfwng

RHIFAU / MANYLION CYSWLLT MEWN ARGYFWNG

Y GWASANAETHAU BRYS-'999'

Heddlu Gogledd Cymru: - 0845 607 1001

Galw Iechyd Cymru: - 0845 46 47

Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru (Diogelwch Tân) - 0800 169 1234

Cynllun Argyfwng Swyddfeydd Tŷ Russell (Byr) 22-11-15

CWMNIAU CYFLEUSTODAU / ALLANOL

Scottish Power/MANWEB:	-	0800 001 5400
Dŵr Cymru (Llinell gollyngiadau):	-	0800 052 0130
Gollyngiadau Nwy (Wales & West)	-	0800 111 999
LPG (Flo Gas)	-	0345 720 0100
Knowsley Lift Services	-	0151 286 1322

RHIFAU ARGYFWNG CSDd

Llinell Gymorth Argyfwng CSDd - 01745 538414

(Tu Allan i Oriau Swyddfa)

Yr Adran Iechyd a Diogelwch Corfforaethol: - 01824 712541 / 2516 / 2517

Desg Gymorth Gwasanaethau Adeiladau: - 01824 706893

Rheolwr Cyfleusterau: - 01824 706748 / 07810 758978

Uwch Oruchwyliwr Safle: - 01824 706198 / 07733 012426

Goruchwyliwr Safle: (Tŷ RUSSELL) - 01824 706473 / 07810 815404